# PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD

**Dyddiad:** 25 Tachwedd 1999

**Amser:** 9.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynylliad Cenedlaethol

Teitl: Papur Gwyn y DU ar Ddatblygiadau yn yr Undeb Ewropeaidd

## Diben

1. Hysbysu aelodau'r Pwyllgor am bapur y Swyddfa Gabinet, "Papur Gwyn ar ddatblygiadau yn yr Undeb Ewropeaidd".

## Argymhelliad

2. Gwahoddir y pwyllgor i nodi cynnwys y papur.

## Cefndir

3. Cyflwynir y "Papur Gwyn ar Ddatblygiadau yn yr Undeb Ewropeaidd" i'r Senedd bob chwe mis gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor a'r Gymanwlad. Mae'n darparu gorolwg o'r cynnydd a wnaed mewn meysydd allweddol o fusnes yr Undeb Ewropeaidd yn ystod y cyfnod chwe mis pan fo Aelod Wladwriaethau yn dal Arlywyddiaeth y Cyngor o Weinidogion a'r Cyngor Ewropeaidd.

4. Y copi diweddaraf yw argraffiad Gorffennaf-Rhagfyr 1998, sy'n amgaeedig. Bydd y papur nesaf, sef un Ionawr-Mehefin 1999 ar gael ar ddechrau Rhagfyr. Gellir cael copïau ar wefan y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad yn www.fco.gov.uk.

## Cyngor

5. Bydd aelodau'r pwyllgor yn derbyn copïau o'r Papur Gwyn bob chwe mis fel modd o gadw trac ar ddatblygiadau o fewn yr Undeb Ewropeaidd oni bai eu bod yn nodi yn wahanol.

## Cynnwys

6. Mae’r papur gwyn yn cwmpasu’r meysydd polisi canlynol:

Materion Economaidd, Cyllidol ac Ariannol

Cyflogaeth, Addysg, Diwylliant

Cysylltiadau Allanol, gan gynnwys Masnach a Chymorth

Y Farchnad Sengl

Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd

Yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth

Diwydiant, Ynni a Materion Defnyddwyr

Cronfeydd strwythurol a chronfeydd eraill

Datganoli, Cymesuredd a Rheoleiddio gwell

Polisi Tramor a Diogelwch Cyffredin

Cyfiawnder a Materion Cartref

7. Mae hefyd yn cynnwys crynodeb byr o gyfarfodydd y Cyngor Ewropeaidd a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod y mae’r adroddiad yn ei gwmpasu.

**Cydymffurfio**

8. Cyflwynir yr adroddiad hwn i’r Pwyllgor er gwybodaeth ac er mwyn iddynt ei drafod. Ni cheir unrhyw faterion sy’n ymwneud â rheoleidd-dra neu briodoldeb, nag unrhyw oblygiadau ariannol.

**Themâu Trawsbynciol**

9. Dim

**Cyswllt**

10. Yr Adran Materion Ewropeaidd